24.02.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Ardal fechan sydd wedi gadael argraff enfawr ar Gymru

Diwydiant, diwylliant a chwedl - dyma dri gair sy'n crisialu'r ardal hanesyddol o amgylch Treffynnon yn Sir y Fflint.

Bydd tîm **Cynefin** sef Heledd Cynwal, Dr Iestyn Jones a Siôn Tomos Owen yn ymweld â'r dref hynod hon sydd yn gartref i un o saith rhyfeddod Cymru – sef Ffynnon Gwenffrewi - yn y gyfres newydd ar S4C.

"Heb amheuaeth, ardal Treffynnon oedd y cawr diwydiannol cenedlaethol cynta'. Mae'r olion a chreithiau'r gweithfeydd o'r oes euraidd honno yn dal i'w gweld," meddai Heledd.

"Ond fe adawodd yr ardal yma waddol diwylliannol hefyd – a hynny i gyd yn y gornel fechan yma o Sir y Fflint."

Mae ardal Treffynnon wedi meithrin artistiaid byd enwog megis yr actor Jonathan Pryce, y tenor David Lloyd, y naturiaethwr Thomas Pennant a mawrion y byd pêl droed Barry Horne a Mike England.

Mae hefyd yn gartref i Ffynnon Gwenffrewi sydd wedi denu miloedd o ymwelwyr am dros 1300 o flynyddoedd - ac mae'r dynfa yn parhau hyd at heddiw. Mae Iestyn yn clywed hanes cythryblus Gwenffrewi ac yn profi dyfroedd y ffynnon sanctaidd.

Siôn Tomos Owen sy'n mynd ar drywydd chwedl arall yn Abaty Basing a hanes un o'r mynachod a gafodd ei swyno gan gân aderyn.

"Yn ôl y chwedl, cafodd un o'r mynachod ei hudo i'r goedwig gan sŵn eos yn canu," meddai Siôn. "Oedd e'n credu taw dim ond ychydig o funudau oedd e allan yn gwrando ar yr eos ond pan ddaeth e nôl, roedd yr abaty yn adfail a chanrifoedd wedi mynd heibio. Trodd y mynach druan yn llwch yn fuan wedyn."

Mae Heledd yn ymweld â Chaerwys - un o drefi lleiaf Prydain ac yn clywed am hanes brodor o'r dref sef Thomas Wynne a'i ddylanwad ef ar gynllun strydoedd dinas Philadelphia yn yr Unol Daleithiau ac enwau Cymraeg y strydoedd sy'n dal i fodoli yna.

Mae hi hefyd yn ymweld â Neuadd Mostyn ac yn dysgu mwy am yr Eisteddfod a gynhaliwyd yna dan orchymyn y frenhines Elizabeth 1 bron i 500 yn ôl, ac mae hi'n cael gweld trysor sy'n cael ei gadw yna, sef telyn arian a roddwyd fel gwobr i'r telynor gorau yn yr Eisteddfod honno.

Yn ogystal â'i hanes diwylliannol, mae gan ardal Treffynnon hanes diwydiannol hir a llwyddiannus - adnabuwyd fel Merthyr Tudful y gogledd.

Meddai Iestyn: “Aeth yr hanesydd John Davies gam ymhellach wrth ddisgrifio pwysigrwydd gweithgarwch diwydiannol y rhan yma o ogledd ddwyrain Cymru. Roedd e’n gwbl grediniol mai yn yr ardal yma y gosodwyd seiliau'r chwyldro a hynny ymhell cyn y cynnwrf a ddigwyddodd yn ddiweddarach yn ne Cymru.”

Mae Iestyn yn darganfod mwy yn Nyffryn Maes Glas - ardal tua milltir a hanner o hyd bu’n safle i 19 o ffatrïoedd yn cynhyrchu pob math o nwyddau gan gynnwys sosbannau copr a phapur.

Darganfyddwch mwy am yr ardal hynod hon ar **Cynefin**, nos Fawrth, 8 Mawrth ar S4C. Gallwch dal i fynnu ar S4C Clic gyda’r rhaglen gyntaf yn y gyfres newydd wrth i’r tîm ymweld â Beddgelert.

**Cynefin**
**Nos Fawrth 8 Mawrth 9.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Rondo ar gyfer S4C**

24.02.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# A small area which has made a big impression

The town of Holywell in Flintshire and the villages and countryside which surround it make up a landscape of industry, culture and legend.

The **Cynefin** team Heledd Cynwal, Dr Iestyn Jones and Siôn Tomos Owen visit this extraordinary town which is home to St Winiefride's Well - one of the seven wonders of Wales in the latest series on S4C.

"Without doubt, the Holywell area was the first national giant of industry. The remains and scars of the workings of this golden age are still visible," said Heledd. "But this area has left a cultural inheritance too – all in this small corner of Flintshire."

The Holywell area has produced world famous artists including actor Jonathan Pryce, the tenor David Lloyd, the naturalist Thomas Pennant and giants of the footballing world Barry Horne and Mike England.

It is also the home to St Winiefride's Well which has attracted thousands of visitors for more than 1300 years – and this attraction continues to this day. Iestyn hears the terrible story behind the legend of the well and immerses himself in the holy waters.

Siôn Tomos Owen goes to Basingwerk Abbey on the trail of another legend about a monk who fell under the spell of a songbird.

"According to the legend, one of the monks was enchanted by the sound of a nightingale singing," said Siôn. "He thought that he had only been listening to the nightingale for a few minutes but when he came back, the abbey was in ruins and centuries had gone by. The unfortunate monk turned to dust very soon after."

Heledd visits Caerwys – one of Britain's smallest towns and learns about the history of Thomas Wynne, a native of the town, and the part he played in designing the streets of Philadelphia in the United States and the Welsh Street names which still exist there.

She also visits Mostyn Hall and learns more about the Eisteddfod which was held there on the orders of Queen Elizabeth I nearly 500 years ago and she gets to see a treasure which is kept there – a silver harp which was given as a prize to the best harpist of that Eisteddfod.

As well as the cultural history, the Holywell area has a long and successful industrial past – it was known as the Merthyr Tydfil of the north.

Iestyn said: "The historian John Davies went a step further when describing the importance of industrial activity in this part of north east Wales. He was completely convinced that it was in this area that the foundations of the industrial revolution were laid and this some time before the tumult which happened later in South Wales."

Iestyn finds out more in the Greenfield Valley – an area a mile and a half long that was the site of 19 factories producing all kind of goods including copper saucepans and paper.

Find out more about this fascinating area in **Cynefin,** Tuesday, 8 March on S4C. You can catch up on S4C Clic with the first programme in the new series in which the team visit Beddgelert.

**Cynefin**
**Tuesday 8 March 9.00, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Rondo Media production for S4C**